

Copyright Notice

Staff and students of this University are reminded that copyright subsists in this extract and the work from which it was taken. This Digital Copy has been made under the terms of a CLA Licence which allows you to:

- Access and download a copy
- Print out a copy

This Digital Copy and any digital or printed copy supplied to or made by you under the terms of this Licence are for use in connection with this module or course of study. You may retain such copies after the end of the course, but strictly for your own personal use.

All copies (including electronic copies) shall include this Copyright Notice and shall be destroyed and/or deleted if and when required by the University.

Except as provided for by copyright law, no further copying, storage or distribution (including by e-mail) is permitted without the consent of the copyright holder.

The author (which term includes artists and other visual creators) has moral rights in the work and neither staff nor students may cause, or permit, the distortion, mutilation or other modification of the work, or any other derogatory treatment of it, which would be prejudicial to the honour or reputation of the author.

Title of extract: **Datblygiadau Cynnar Chwedl Arthur**

Name of Author: **Jones, T.**

Title/Author of book/edition (if applicable)

Name of Visual Creator or other acknowledgement (if applicable):

Journal details –title/Vol/Year (if applicable): **Bulletin of the Board of Celtic Studies Vol 17 (1958)**

Publisher: **University of Wales Press**

Pages scanned: **235 - 252**

Course of Study (Module name and number): **Celtic Arthur CYCS7021**

Name of Designated Person

authorising scanning: *E. L. Harris*

Date authorised: 27.03.17.

Moodle/Powerpoint

THE BULLETIN OF THE BOARD OF CELTIC STUDIES

VOLUME XVII · PART IV · MAY 1958

I. Language and Literature

DATBLYGIADAU CYNNAR CHWEDL ARTHUR

PWRPAS hyn o erthygl yw ailystyried y cyfeiriadau hynny at Arthur y mae'n weddol sicr eu bod yn gynharach nag ymddangosiad *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy yn 1136. Trwy hynny ceisir dangos pa ddatblygiadau y gellir eu gweld yn chwedl Arthur yn y cyfnod cyn y datblygiadau mawr a welir yng ngwaith Sieffre o Fynwy, Chrétien de Troyes a'r llu rhamantwyr a'u dilynodd. Defnyddiais yr ymadrodd 'chwedl Arthur' yn fwriadol er mwyn pwysleisio mai â'r chwedl cyn dyddiau Sieffre yr ymdrin-nir, ac nid â'r corff cymhleth o chwedlau diweddarach a olygir fel rheol wrth sôn am 'y chwedl Arthuraidd'.

Y mae'r dystiolaeth am fodolaeth traddodiadau ac ystorïau am Arthur yn y cyfnod cyn 1136 yn gyfyngedig i destunau Cymraeg ac ychydig o destunau Lladin sydd gan mwyaf yn waith Cymry.¹ Y mae hefyd ddau neu dri thestun arall mewn Gwyddeleg a Lladin sy'n cynnwys cyfeiriadau at bersonau hanesyddol a enwid 'Arthur'; ac y mae'n rhaid ystyried y cyfeiriadau hyn wrth holi pwy yn union oedd yr Arthur a dyfodd yn ffigur canolog mewn cynifer o chwedlau. Y mae'r dystiolaeth ei hun heb gynyddu fawr ddim ers amser maith, ond y mae'r aml geisiadau a wnaethpwyd i'w dehongli er diwedd y ganrif ddiwethaf, dyweder, yn amrywio llawer iawn.

Prin y gellir dweud dim byd pendant am Arthur hanes.² Ni ellir bellach dderbyn y syniad mai ffigur chwedlonol ydoedd.³ Ymddengys i mi nad oes achos i wrthod yn gyfan gwbl y cofnodion hynny yn yr *Annales Cambriae* yn Llsg. B.M. Harley 3859 (c. 1100) sy'n cyfeirio at Arthur (gw. isod);

¹ Ceir y dogfennau Lladin wedi'u casglu gyda'i gilydd yn E. K. Chambers, *Arthur of Britain*, tt. 235-52. Gw. hefyd E. Faral, *La Légende Arthurienne*, i. 132-54, 220-3; Lewis Jones, *King Arthur in History and Legend*, tt. 11-59; R. S. Loomis, *Wales and the Arthurian Legend*, tt. 178-220.; J. S. P. Tatlock, *The Legendary History of Britain*, tt. 178-229.

² Gw. er hynny, Kempe Malone, 'The Historicity of Arthur' yn *Journal of English and German Philology* (1924); R. G. Collingwood and J. N. L. Myres, *Roman Britain and the English Settlements* (ail. argr.), 320 ff.

³ Am y syniad mai ffigur chwedlonol oedd Arthur gw. yn arbennig John Rhys, *The Arthurian Legend*, tt. 8-24.

ac y mae hyn yn golygu fy mod yn derbyn y syniad fod person hanesyddol o'r enw Arthur yn gynnar yn y VI ganrif, a hwnnw o bosibl yn un o arweinwyr y Brytaniaid yn erbyn eu gelynion, boed y gelynion hynny y Pictiaid a'r Ysgotiaid neu'r Saeson neu'r cyfan gyda'i gilydd! Y mae'r enw 'Arthur', sy'n ymddangos fel benthyciad o'r Ll. *Artorius*,¹ a'r hyn a wyddom yn gyffredinol am gyflwr pethau ym Mhrydain tua diwedd y V ganr. a dechrau'r VI yn awgrymu ei fod yn hanu o deulu â chysylltiadau Rhufeinig a'i fod wedi chware rhyw ran yn y dasg o amddiffyn ac atrefnu'r ynys yn y cyfnod cythryblus pan oedd Prydain wedi'i hamddifadu o amddiffyn y milwyr Rhufeinig, yn llawn ymraniadau, ac yn dioddef o dan ymosodiadau gan elynion o'r tu allan. Ni welaf fod y dystiolaeth yn caniatáu inni gynnig mwy na hynyna, ond o bryd i'w gilydd cynigiwyd llawer o ddamcaniaethau a ddadleuwyd mór gywraeth ac a ailadroddwyd mor aml nes bod perygl inni anghofio mai damcaniaethau ydynt.

Y mae'n naturiol gofyn a gadwyd hyd yn oed un cyfeiriad cyfoes at yr Arthur hanesyddol. Ysgrifennodd Gildas ei *De Excidio Britanniae* cyn marw Maelgwn Gwynedd, ac yn ôl yr *Annales Cambriae* tua 547 y bu Maelgwn farw. Dywed Gildas i'r Saeson ddyfod i Brydain am y tro cyntaf fel milwyr cyflog ar wahoddiad rhyw 'deyrn balch' (*superbo tyranno*)—Gwrtheyrn, y mae'n fwy na thebyg—i'w helpu yn ei ymdrechion yn erbyn y Pictiaid a'r Ysgotiaid.² Troes y milwyr cyflog yn erbyn eu cyflogwyr ac anrheithio'r ynys, ond o'r diwedd fe'u gorchfygwyd mewn brwydr gan Ambrosius Aurelianus—Emrys Wledig y traddodiad Cymreig. Ar ôl hyn, medd Gildas, weithiau byddai'r Brytaniaid ac weithiau'r Saeson yn fuddugol dros gyfnod o amser y nodir ei ddiwedd mewn geiriau sy'n bur amwys yn eu cyd-destun ac a ddehonglwyd mewn mwy nag un ffordd—*usque ad annum obsessionis Badonici montis novissimaeque ferme de furciferis non minimae stragis, quique quadragessimus quartus, ut novi, orditur annus, mense iam uno emenso, qui et meae nativitatis est*. O'r amrywiol ddeongliadau o'r geiriau a gynigiwyd hyd yn hyn ymddengys i mi mai'r un mwyaf argyhoeddiadol yw'r un canlynol: 'hyd at flwyddyn gwarchae Mynydd Baddon a'r lladdfa fawr olaf bron o'r dyhirod, ac y mae'r flwyddyn hon [sef y flwyddyn y mae Gildas yn ysgrifennu] yn ddechrau'r bedwaredd flwyddyn a deugain [wedi hynny], ac un mis eisoes wedi mynd heibio, fel y gwn i, oherwydd y flwyddyn honno yw blwyddyn fy ngeni.'³ Dywedwyd yn aml—yn gwbl anfeirniadol—fod Gildas yn cyfeirio at Arthur, ond nid yw hynny'n wir. Y mae'n bosibl, er hynny, mai Arthur oedd arweinydd y Brytaniaid ym muddugoliaeth Mynydd Baddon, fel yr oedd Ambrosius Aurelianus (yntau o dras Rhufeinig, *Romanae gentis*, medd Gildas⁴) yn arweinydd y fuddugoliaeth

¹ Gw. Nitzsche, 'Arthurian Names: Arthur' yn PMLA lxiv. 585–96.

² *De Excidio Britanniae* (gol. Hugh Williams), t. 52. Y mae llsg. A (Avanches 162, a berthyn i'r XII ganr.) yn ychwanegu *Vortigerno* a llsg. X (Cambridge Ff. 1. 27, a berthyn i'r XIII ganr.) yn darllen *Gurthigerno Britannorum duce*.

³ Cf. A. W. Wade-Evans, *Nennius's 'History of the Britons'*, 151–2; Syr Ifor Williams d.g. 'Gildas' yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*; K. Jackson, LHEB 199.

⁴ argr. Hugh Williams, t. 60.

gynharach yn erbyn y Saeson a gofnodir yn *De Excidio Britanniae*. Y mae'r posiblirwydd hwn yn dibynnu ar gywirdeb neu anghywirdeb ystyried brwydr Mynydd Baddon (*obsessio Badonici montis*) yr un â brwydr Baddon (*Bellum Badonis*) a gofnodir yn AC. Oherwydd anhawster amseryddol ni ellir bod yn sicr mai'r un oeddynt. Gan na wyddom yn sicr pa flwyddyn oedd 'blwyddyn gyntaf' AC y mae'n anodd dod o hyd i wir ddyddiadau ei gofnodion. Bu Maelgwn Gwynedd farw yn 547 neu 549. A bwrw fod Gildas yn ysgrifennu yn 549, dyddiad brwydr Mynydd Baddon oedd 506.¹ Ond dyddiad *Bellum Badonis* yn AC yw 516 neu 518. Gwall cyffredin wrth gopïo cyfres o gofnodion blynyddol neu *annales* yw gadael allan neu ychwanegu x (= deg) wrth roi'r dyddiadau. Nid yw'n afresymol awgrymu fod *Bellum Badonis* wedi'i hamseru ddeng mlynedd yn rhy ddiweddar yn AC. O leiaf, byddai tybio hyn yn cyfrif am yr anghysondeb rhwng dyddiad brwydr Mynydd Baddon gan Gildas a dyddiad *Bellum Badonis* yn AC, gan gymryd yn ganiataol am y tro mai'r un frwydr oeddynt, er na ellir profi hynny, a bod y cofnod yn AC yn ddilys ac yn annibynnol ar destunau eraill.

Dyma'r cofnod llawn yn AC:

Brwydr Baddon lle y cariodd Arthur Groes ein Harglwydd Iesu Grist dri diwrnod a thair nos ar ei ysgwyddau, ac y bu'r Brytaniaid yn fuddugol.

Y mae'r cofnod hwn yn annhebyg iawn mewn un peth i'r cofnodion eraill sydd yn rhannau cyntaf AC. Y mae'r cofnodion eraill heb eithriad yn rhai byr, ffeithiol sy'n rhydd o elfennau gwyrthiol ac ystoriol. Y mae'r sôn am Arthur yn cario Croes Crist ar ei ysgwyddau mewn brwydr yn sawru o chwedl grefyddol. A barnu wrth natur cofnodion cynnar AC gellir cynnig mai ffurf wreiddiol y cofnod uchod yn ei ffynhonnell eithaf (os nad yw'r cofnod cyfan yn un ymwithiol o dan ddylanwad y cyfeiriad at frwydr Baddon a geir yn *Historia Brittonum*) oedd:

'Brwydr Baddon, a bu (lle y bu) y Brytaniaid yn fuddugol'.

Dyddiad Llsg. B.M. Harley 3859 yw tua 1100; ac er bod y dystiolaeth fewnol o blaid tybio cyfansoddi AC tua 955 nid yw'n ddiogel casglu, fel y gwnaethpwyd yn rhy barod o lawer, fod y cyfeiriad at Arthur yn cario Croes Crist ar ei ysgwyddau yn elfen gynnar o angenrheidrwydd. Nid yw'r darlun o Arthur yn ymladd gyda'r Groes ar ei ysgwyddau yn ddarlun argyhoeddiadol mewn cofnod hanesyddol nac ychwaith mewn chwedl. Yn rhai o gofnodion cynnar AC y mae arwyddion cyfieithu o'r Gymraeg,² ac awgrymwyd mor gynnar â dyddiau Thomas Price (Carnhuanawc) fod *in humeros suos* ('ar ei ysgwyddau') yn ganlyniad cymysgu rhwng HG *scuit* (CC *ysgwyt*, 'tarian') a HG *scuid* (CC *ysgwyd*, 'ysgwydd')³ Byddai'n haws

¹ Cofier fod AC yn cofnodi *Bellum Badonis secundo*, s.a. [665]. Y mae'n debyg mai'r un yw'r frwydr hon â brwydr *Biedan-heafod* a gofnodir yn y *Cronicl Seisnig*, s.a. 675—gwahaniaeth o ddeng mlynedd, fe sylwir, yn y dyddiad.

² Gw. nodiadau Phillimore i'w argr. o *Annales* Llsg. Harley 3859 yn *Y Cymmrodor*, ix. 152 yml.

³ Cf. Thomas Stephens, *Literature of the Kymry* (1849), t. 17 (= argr. 1876, t. 9).

derbyn y syniad, yn hanesyddol neu'n ystoriol, fod llun o Groes Crist wedi'i ysgythru ar darian Arthur. Sylwer, er hynny, ar un pwynt pwysig: os dileir yr is-frawddeg 'lle y cariodd Arthur . . . ysgwyddau' o'i deall fel brawddeg ymwithiol a ychwanegwyd rhwng c. 955 a c. 1100, nid oes sôn am Arthur o gwbl yn yr hyn sy'n weddill o'r cofnod, a'r cyfan a geir yw crybwyll brwydr Baddon a buddugoliaeth y Brytaniaid. A dyna'r cyfan a geir gan Gildas am frwydr Mynydd Baddon. Dichon fod yr is-frawddeg ymwithiol yn tarddu o ffurf ychydig yn amrywiol ar yr elfen ystoriol a gysylltir â brwydr Baddon yn *Historia Brittonum* (gw. isod tt. 239-40). Sut bynnag, yn y cofnod fel y mae yn AC gwelwn Arthur hanes yn dechrau troi'n ffigur mewn chwedl.

Yr ail gofnod Arthuraidd yn AC yw hwnnw sy'n crybwyll brwydr Camlan:

[537 neu 539] 'Gwaith (= Brwydr) Camlan lle y syrthiodd Arthur a Medrawd.'

Dichon mai'r cofnod hwn yw'r un mwyaf hanesyddol a gadwyd inni am Arthur, a phetaem yn gallu lleoli Camlan yn bendant fe ddysgem rywfaint efallai am gefndir y frwydr a phenderfynu i ba dalaith y perthynai Arthur iddi. Y cais gorau, o leiaf ar yr olwg gyntaf, a wnaethpwyd i leoli Camlan yw deall yr enw lle fel ffurf ddiweddarach ar *Camboglanna*, enw caer ar fur Hadrian, ger Birdoswald yn awr.¹ Er hynny, ni ellir derbyn hyn yn ddibet-rus: y ffurf yn AC yw *Camlann*, ond os datblygiad o *Camboglanna* yw *Camlan*, y ffurf a ddisgwyldid yn orgraff HG yr *Annales* yw *Camglann*, cf. AC 11 s.a. 796 *Rudglann*, s.a. 807 *Arthgen*.² Sylwer na ellir casglu dim oddi wrth y cofnod am y berthynas rhwng Arthur a Medrod, ac nad oes ynddo awgrym o'r brad ar ran Medrod a ddisgrifir yn *Historia* Sieffre o Fynwy. Gan fod y mwyafrif o gofnodion cynnar AC yn cyfeirio at ddigwyddiadau yng ngogledd yr ynys a'i bod yn bosibl mai yno yr oedd Camlan—h.y. os yr un ydyw â *Camboglanna*—mae'n deg casglu mai i'r hen Ogledd y perthynai Arthur, megis Urien, Rhydderch Hael, Llywarch Hen a chynifer o ffigurau hanesyddol eraill o'r cyfnod cynnar y tyfodd traddodiadau arwrol amdanynt yng Nghymru. Nid yw'n amherthnasol cysylltu â hyn y ffaith mai yn y canu a gysylltir â'r hen Ogledd y ceir un o'r cyfeiriadau cynnar, hwyrach y cynharaf i gyd, at Arthur mewn barddoniaeth Gymraeg, sef y cyfeiriad hwnnw sydd yn 'Y Gododdin' (gw. isod t. 244).

Trown yn awr at gwestiwn arall. A gadwyd cyfeiriadau cynnar mewn dogfennau hanesyddol eraill at bersonau'n dwyn yr enw Arthur a allai fod wedi ymladd ym mwydr Baddon, boed ei gwir ddyddiad 506, 516 neu 518, ac ym mwydr Camlan, boed ei gwir ddyddiad 537 neu 539? Ym 'Mucedd Colwmba',³ a gyfansoddwyd gan Adamnán cyn 704, ac yn *Annals of Tigernach* cyfeirir at Arthur fab Aeddan fab Gafran (Aidán mac Gabráin) — yntau'n perthyn i'r hen Ogledd. Yn ôl *Annals of Ulster* ac *Annals of Tigernach* bu Aeddan fab Gafran farw yn 606, ac yn ôl *Annals of Tigernach*

¹ Cf. B vii. 273-4.

² Gw. Jackson, LHEB 437-8.

³ Gw. Pennod ix (argr. Fowler, tt. 24-25).

lladdwyd ei fab Arthur mewn brwydr yn 594, bron drigain mlynedd yn ddiweddarach na dyddiad brwydr Camlan yn ôl AC. Mewn testun arall, *Tairred na nDessi* ('Crwydriadau'r Déssi') neu *Indarba inna nDési* ('Alltud-iaeth y Déssi') a briodolir i'r VIII ganr., ac yn Achau Llsgr. B.M. Harley 3859 sonnir am Arthur arall, gor-or-wyr i Werthefyr fab Aergol, ac felly gŵr o Ddyfed.¹ Y mae'r Arthur hwn, megis Arthur fab Aeddan, yn rhy ddiweddar i fod wedi ymladd yng Nghamlan, ond y mae cael yr enw ar ŵr o Ddyfed ac ar fab Aeddan yn y Gogledd hwyrach yn adlewyrchiad o enwogrwydd Arthur hanesyddol cynharach.

Gwelsom mai'r unig gofnod pendant am Arthur yn AC yw ei fod wedi syrthio gyda Medrod ym mwydr Camlan, a bod amheuaeth ynghylch dilysrwydd yr is-frawddeg berthynol (lle y digwydd enw Arthur) a geir yn y cofnod am frwydr Baddon. Ac nid oes dim byd dibynadwy i'w ychwanegu at y dystiolaeth hon o ffynonellau hanesyddol eraill. Daw hyn â ni at yr hyn a ddywedir am Arthur yn *Historia Brittonum* fel yr adolygwyd ef gan Nennius, gŵr sy'n sôn amdano'i hun fel disgybl i Elfoddw; ac yn ôl AC a *Brut y Tywysogyon* bu Elfoddw farw tuag 809. Y mae'n sicr nad Nennius oedd awdur y cyfan o HB er bod yr hyn a ddywed yn ei Ragair yn dangos mai ef a gyfansoddodd rannau ohono. Ac y mae'n rhaid pwysleisio o'r newydd, fel y gwnaeth Syr Ifor Williams wrth ddadlau fod ei stori am Wrtheyrn a 'Brad y Cyllyll Hirion' wedi'i seilio ar gyfarwyddyd Cymraeg,² ei fod ef ei hun yn dweud mai un o'i ffynonellau oedd 'traddodiad ein hynafiaid', peth y dylid ei gofio wrth geisio dadansoddi'r hyn a ddywed am Arthur ym Mhennod 56:

Yn yr amser hwnnw [h.y. yn amser Hengist] yr oedd y Saeson yn ymgryfhau ac yn cynyddu ym Mhrydain. Ar ôl marw Hengist croesodd Oetha, ei fab, o ogledd-barth Prydain i deyrnas Caint, ac ohono ef y brigodd brenhinoedd Caint. Yna yn y dyddiau hynny ymladdodd Arthur yn eu herbyn gyda brenhinoedd Prydain, ond ef ei hun oedd y tywysog cadau. Bu'r frwydr gyntaf yn aber [neu 'yng nghymer'] yr afon a elwir Glein. Yr ail a'r drydedd a'r bedwaredd a'r bumed ar lan afon arall a elwir Dulas (*Dubglas*), ac y mae yng ngwlad Llynnwys (*Linnuis*). Y chweched frwydr ar afon a elwir Bassas. Bu'r seithfed frwydr yng Nghoed Celyddon (*Celidon*), sef Cad Coed Celyddon (*Cat Coit Celidon*). Bu'r wythfed frwydr yng nghaer 'Guinnion', lle y cariodd Arthur ddelw'r Wynfydedig Fair y fythol Wryr ar ei ysgwyddau, a gyrrwyd y paganiaid ar ffo y diwrnod hwnnw, a bu lladdfa fawr ohonynt drwy nerth ein Harglwydd Iesu Grist a thrwy nerth y Wynfydedig Wryr Fair Ei Fam. Ymladdwyd y nawfed frwydr yng Nghaerlleon (*in urbe Legionis*). Ymladdodd (sc. Arthur) y ddegfed frwydr ar draeth yr afon a elwir Tryfrwyd (*Tribruit*). Ymladdwyd yr unfed frwydr ar ddeg ar y mynydd a elwir 'Agned' (Llsgr. MN. . . *Breguoin*, yr hon a alwn ni *Cat Bregion*). Ymladdwyd y ddeuddegfed frwydr ar Fynydd Baddon (*in monte Badonis*), lle y syrthiodd yn un dydd naw cant a thrigain o wŷr rhag un ymgyrch gan Arthur, ac ni fwriodd neb hwynt ond ef ei hun (*ipse solus*). Ac yn yr holl frwydrau bu'n fuddugol.

Y mae amryw bwyntiau yn y darn uchod y mae'n werth sylwi arnynt.

¹ K. Meyer, 'The Expulsion of the Dessi' yn *Y Cymmrodor*, xiv. 112, cf. *Ériu*, iii. 136, *Féilscribhinn Torna*, 213, 217. Nis ceir yn y fersiynau diweddar (gol. Vernam Hull) yn Z.f.c. Ph. xxvii. 14 yml.

² Hen Chwedlau, 13 yml.

Yma y dywedir yn bendant am y tro cyntaf mai ymladd yn erbyn y Saeson a wnaeth Arthur. Nid oes sôn am frwydr Camlan. Pam? Dichon na wyddai Nennius (neu pwy bynnag a gyfansoddodd bennod 56) am unrhyw ffurf ar y cofnodion cynnar a gynhwyswyd yn ddiweddarach yn AC. Dichon hefyd fod y gred nad oedd Arthur wedi marw wedi datblygu eisoes, a bod Nennius yn fwriadol wedi peidio â sôn am frwydr Camlan, hyd yn oed os gwyddai am gofnod tebyg i'r un a geir yn AC. A fu iddo yn yr adran ar Arthur roi'r flaenoriaeth i 'draddodiad ein hynafiaid' am fuddugoliaethau Arthur a thewi â sôn am y frwydr lle y syrthiodd Arthur? Gellir o leiaf ganiatáu posibilrwydd hynny. O'r enwau lleoedd a nodir wrth sôn am y deuddeg brwydr ni ellir lleoli ond dau yn weddol sicr: Caerlleon, sef Caerlleon ar Ddyfrdwy, a Choed Celyddon, yn rhywle yn neu Sgotland. Y mae'n bosibl mai Lindsey yw Llynwys. Ni wyddys lleoliad y lleill gydag unrhyw sicrwydd, ond gall Tryfrwyd fod yn Sgotland, a Mynydd Baddon rywle tua chanol deheubarth Lloegr. Y mae dosbarthiad daeryddol y pum enw lle hyn (y ddau sicr a'r tri nad ydynt yn sicr) yn awgrymu ei bod yn bur annhebygol fod yr Arthur hanesyddol wedi ymladd ym mhob un o'r brwydrau; a sut bynnag, yn ôl yr hyn a wyddom, prin y gellir meddwl am y Brytaniaid yn ymladd yn erbyn y Saeson cyn belled i'r gorllewin â Chaerlleon a chyn belled i'r gogledd â deau Sgotland yn rhan olaf y bumed ganrif a rhan gyntaf y chweched.¹ Ac y mae hyn yn awgrymu'r peth pwysicaf oll y dylid ei ystyried ynglŷn â'r rhestr brwydrau a geir gan Nennius, sef na ddylid edrych arnynt fel brwydrau yr ymladdodd yr Arthur hanesyddol ynddynt i gyd, hyd yn oed os gwnaeth hynny mewn un neu fwy ohonynt. Ac y mae hyn yn golygu na ddylid damcaniaethu dim am Arthur hanes ar sail lleoliad y brwydrau hyn. Cawn ddychwelyd at y pwynt hwn isod.

Noder fod brwydr Mynydd Baddon yn cael ei nodi'n ddeuddegfed ac yn olaf yn y rhestr, yr hyn sydd yn ein hatgoffa o ddisgrifiad Gildas o frwydr *Mons Badonicus* fel 'y lladdfa fawr olaf bron o'r dyhirod'. Efallai nad yw hyn ond cyd-ddigwyddiad, ond dichon hefyd, gan mai rhyw glerigwr. — Nennius neu rywun arall — a ysgrifennodd bennod 56, fod rhoi brwydr Mynydd Baddon yn olaf yn y rhestr yn adlais o eiriau Gildas. Sylwer fod HB yn galw'r frwydr yn 'frwydr ar Fynydd Baddon' (*in monte Badonis*), yr hyn sy'n awgrymu dylanwad *De Excidio Britanniae*. Eto, yn ôl Nennius, ym mrwydr 'Guinnion', ac nid ym mrwydr Baddon fel yn AC, y cariodd Arthur ddelw'r Wry Fair (nid Croes Crist fel yn AC) ar ei ysgwyddau. Awgrymwyd gan Lot mair dylanwad darn gan Feda am fuddugoliaeth Oswald ar Gadwallon ym mrwydr Cant Ysgawl drwy help y Wry Fair sy'n gyfrifol am y cyfeiriad at gario delw o Fair.² Beth bynnag am gywirdeb yr awgrym hwnnw a manylion y cysylltiad rhwng y sôn am Groes Crist yn

¹ Ar y brwydrau ym Mhennod 56 o HB gw. K. Jackson, 'Once again Arthur's Battles', *Modern Philology*, xliii. 44 yml.; id. 'Arthur's Battle of Breguoin', *Antiquity*, lxxxix. 48-49. Dywed Henry o Huntingdon yn ei *Historia Anglorum* (c. 1129) fod yr enwau lleoedd a nodir ynglŷn â 12 brwydr Arthur i gyd yn anhysbys yn ei gyfnod ef — *Quae tamen omnia loca nostrae aetati incognita sunt*.

² Lot, *Nennius et l'Historia Brittonum*, i. 71.

AC a'r sôn am ddelw'r Wry yn HB, gellir bod yn berffaith sicr mai elfen ystorïol o darddiad eglwysig sydd yma.

Ymhle, tybed, y cafodd Nennius ei restr o ddeuddeg brwydr? Trawodd A. G. Brodeur ar y syniad fod Pennod 56 yn HB yn seiliedig ar gerdd Ladin, a cheisiodd ddangos fod olion llinellau chweban anghlasurol yn y darn.¹ Yn fy marn i, methiant fu ei ymgais i ddangos hyn. Er hynny, fe dâl gofyn a yw'r rhestr wedi'i seilio ar gerdd Gymraeg gynnar a oedd yn cynnwys rhestr o frwydrau enwog a briodolid i Arthur ond nad ymladdodd ynddynt i gyd o angenrheidrwydd. Yn y farddoniaeth gynnar ceir eng-hreiffiau o restrau o'r fath, a'r gynharaf ohonynt yw'r rhestr fer o dair brwydr a geir yn y gân ddilys i Gynan Garwyn fab Brochfael Ysgithrog o Bowys y cofnodwyd lladd ei fab Selyf ap Cynan ym mrwydr Caer yn 613.² Cerdd foliant ydyw a rhan o'r moliant yw cyfeirio at frwydrau, Cynan 'ar Wy', 'ym Môn', ac 'yng Nghrug Dyfed' (BT 45).

Kynan kat diffret . . .

kat ar wy kyrchet . . .

kat ymon mawrdec . . .

kat yg cruc dymet . . .

Mewn cân arall (BT 61) rhestrir brwydrau Urien Rheged, ond y mae'n ymddangos oddi wrth y dystiolaeth fewnol fod y gân gryn dipyn yn ddiweddarach na chyfnod Urien:

kat yn ryt alclut kat ymynuer

kat gellawr brewyn kat hireurur

kat ymprysc katleu kat yn aber ioed . . .

kat glutuein gweith pen coit.

Yn yr un modd yn BT 38-39, mewn cerdd anodd ei hamseru ond sy'n ddiweddarach nag Owain ab Urien, ceir rhestr o frwydrau yr honnir i Owain ymladd ynddynt. Ac fe sylwir fod y llinell gyntaf yn ymddangos fel amrywiad testunol ar y llinell gyntaf yn y dyfyniad uchod:

kat yn ryt alclut. kat yn ygwen

kat yg gossulwyt abann udun.

kat rac rodawys eiwyn drych . . .

kat tuman llachar derlyw derlin . . .

Y mae'n arwyddocaol nad yw'r ail na'r trydydd o'r dyfyniadau uchod yn crybwyll brwydr Argoed Llwyfain y cymerodd Urien a'i fab Owain ran ynddi yn ôl y gerdd (BT 60) sy'n ymddangos yn waith dilys Taliesin. Ac ni sonnir ychwaith am frwydr Gwen Ystrad (BT 56). Bu rhestru brwydrau buddugoliaethus y pennaeth yn elfen weddol gyson yn y canu mawl Cymraeg o ddyddiau'r Cynefeirdd, ac fe'i parhawyd gan y Gogynfeirdd a'r cywyddwyr. Fe'i mabwysiadwyd gan y brudwyr wrth sôn am fuddugoliaethau disgwylidig y 'mab darogan'. Y mae olion cyfieithu o'r Gymraeg

¹ Gw. Arthur G. Brodeur, *Arthur, Dux Bellorum*. University of California Publications in English, vol. 3, No. 7, pp. 237-84.

² Cf. R. Bromwich yn *Studies in Early British History* (gol. N. K. Chadwick), t. 124.

mewn amryw fannau yn HB,¹ ac ni ddylid anwybyddu'r posibilrwydd mai cerdd Gymraeg yw ffynhonnell y rhestr frwydrau ym Mhennod 56. A gellir o leiaf ofyn yn betrus a ydyw'r enwau *Dubglas* / *Bassas*, a *Celidon* / *Guinnion* / *Legion* / *Bregion* / *Baddon* yn adlewyrchu rhan o batrwm odli'r gwreiddiol.

Ystyrier hefyd rai manylion eraill ym Mhennod 56 yn HB. Y mae *tywyssawc cat* yn ymadrodd a ddigwydd yn y farddoniaeth gynnar,² a'i ystyr wreiddiol, y mae'n debyg, oedd 'arweinydd llu neu fyddin'. Ond yn yr hen farddoniaeth gall *cat* olygu 'brwydr' yn ogystal â 'llu, byddin'. Tybed a ym'r ymadrodd *dux bellorum* wrth ddisgrifio Arthur yn HB yn gyfieithiad llythrennol o *tywyssawc cadeu* gyda *cadeu* wedi'i ddeall fel 'brwydrau' yn hytrach nag fel 'lluoeidd, byddinoedd'? Cyn derbyn y posibilrwydd hwn dylid cofio fod yr ymadrodd *dux praelii* (yn ogystal â *dux agminis*) i'w gael gan Feda wrth sôn am fuddugoliaeth 'yr Haleliwia'.³

Y mae'r gosodiad yn HB fod Arthur ei hun (*ipse solus*) wedi lladd 960 o wŷr ym mrwydr Mynydd Baddon yn osodiad rhyfedd mewn testun rhyddiaith, ond ceir llawer enghr. o ormodiaith o'r fath yn y cerddi mawl a marwnad Cymraeg. Yn 'Y Gododdin' dywedir am Hyfaidd Hir y byddai 'pym pymwnt' neu ddeucant a hanner yn syrthio o flaen ei gleddyf (CA 49-51):

kwydei bym pymwnt rac y lafnawr
o wyr Deiuyr a Bryneich dychiawr
ugein kant eu diuant en un awr.

— 'Syrthiai pum gwaith hanner-cant (o wŷr) rhag ergyd ei gleddyf. O wŷr Deifr a Brynaich cwmpodd ugain cant i'w dinistr gyda'i gilydd (neu 'yr un pryd')'. Cf. yr hyn a ddywedir yn CA 1190-4 am fab Nwython:

em ladaut lu maur
iguert i adraut
ladaut map Nuithon
o eur dorchogyon
cant o deyrnet.

— 'Lladdodd ef lu mawr er mwyn cael canu ei glod. Lladdodd mab Nwython gant o frenhinoedd eurdorchog'. Mewn canu anarwrol ceir Taliesin yng 'Nghat Godeu' yn ymfrostio ei fod wedi lladd naw cant, BT 27. 2: neu gorwyf gwaetlan. ar *naw kant kynran*. Cf. *Chwedl Taliesin* 20. Y mae'n bosibl mai gosodiad o'r fath mewn cerdd foliant — heb awgrymu o gwbl ei bod yn gerdd i'r Arthur byw — sydd y tu ôl i'r gosodiad yn HB fod Arthur wedi lladd 960 o wŷr ym mrwydr Mynydd Baddon. Ni fynwn bwysio gormod ar y rhif 960,⁴ ond y mae'n werth nodi y byddai'r rhif

¹ Gw. J. Loth RC. xlix. 150-65 a Syr Ifor Williams, *Hen Chwedlau*, 30-31.

² CLIH 4. 1. 25b Eurdorchawc *tywyssawc cat*; cf. ibid. 1. 24b Eurdorchawc *tywyssawc llu*.

³ Gw. Beda, *Hist. Eccles. Gent. Anglorum* iii. Cap XX. Digwydd *dux belli* hefyd yng nghopi Llsg. Vatican 1964 (a berthyn i'r XI ganr.) o HB, ym mrawddeg gyntaf Pennod 56: Tunc belliger Arthur cum militibus Bryttaniae atque regibus contra illos pugnabat, et licet multi ipso nobiliores essent, ipse tamen duodecies *dux belli* fuit victorque bellorum.

⁴ Y rhif gan William o Malmesbury yn *Gesta Regum* yw 'naw cant': . . . *nongentos hostium solus adorsus incredibili caede profligavit*.

cyfatebol mewn Cymraeg yn y ffurf 'tri thrychant a thri ugeint' yn ymadrodd a fyddai'n cydweddu ag ieithwedd a chreffftwaith y canu cynnar.¹

Y mae hynny o dystiolaeth AC a HB a drafodwyd hyd yn hyn yn dangos fod yn y X ganr. draddodiad am Arthur fel arweinydd a enillodd fuddugoliaethau yn erbyn y Saeson. Y mae'n amheus iawn a oes dim yn y traddodiad hwnnw, ar wahân i frwydr Camlan, y gellir ei dderbyn fel gwir hanes. Dengys cofnodion mewn testunau eraill a ychwanegwyd at HB yn Llsg. B.M. Harley 3859 fod ystorïau anarwrol wedi dechrau ymgysylltu â'r traddodiad arwrol am Arthur erbyn y X ganr. Yn yr adran 'Mirabilia' ('Rhyfeddodau') yn HB ceir y stori ganlynol:

Y mae rhyfeddod arall yn y wlad a elwir Buellt: y mae yno garn (*tumulus*) o gerrig, ac un garreg wedi'i gosod ar uchaf y pentwr (*congestum*) gydag ôl troed ci arni; pan fu'n hela'r Twrch Troeth (Troed) — *porcum Troyt*² — gadawodd Cafall, ci Arthur filwr (*militis*), ôl ei droed ar y garreg; ac wedyn casglodd Arthur bentwr o gerrig a gosododd ar uchaf y pentwr y garreg yr oedd ôl troed ei gi arni, ac fe'i gelwir Carn Cafall (*Carn Cabal*). A bydd pobl yn dyfod ac yn cario'r garreg yn eu dwylo am ddiwrnod a noswaith, ond drannoeth fe'i ceir hi ar ei phentwr ei hun.

Y mae'r garreg sydd bob amser yn dychwelyd i'w lle ei hun, ni waeth i b'le y cludir hi, yn fotif adnabyddus mewn ystorïau gwerin, a dyna yw cnewyllyn y stori uchod; ond fe'i trowyd yn stori onomastig i ffug esbonio'r enw lle Carn Cafall (Corn Cafallt y mapiau erbyn hyn), ger Rhaeadr. Gall fod Nennius neu rywun arall wedi methu wrth sôn am Cafall fel enw ci: nid naturiol yw sôn am bawen ci fel 'carn', ond dyna'r gair am ewin troed march. Buasai'r stori uchod, fel stori onomastig yn honni esbonio'r enw Carn Cafall, yn llawer mwy effeithiol pe dywedasid mai enw march Arthur, nid enw ei gi, oedd Cafall. Gall *Cafall* fod yn fenthyg o'r Lladin *caballus*, neu'n gytras ag ef os benthyciad o'r Gelteg yw'r gair Lladin fel y tybir gan rai. Yn CA 1202-3 digwydd *cauall* fel gair cyffredin yn golygu 'march': Oid girth oed cuall / ar geuin e *gauall*. Ac mewn dau fan yn *Kulhwch ac Olwen*, sy'n anghyson yn hyn o beth â'r adran ohoni sy'n cynnwys ffurf lawnach ar stori hela'r Twrch Trwyth, lle y mae Cafall yn enw ci Arthur fel yn y 'Mirabilia', digwydd Cafall fel enw march, WM. col. 468, ll. 22-23 call. kuall. *kauall* eu tri *meirch*. cf. WM. 485, ll. 16-17. Rhwng popeth gellir awgrymu'n bur hyderus mai enw march oedd Cafall yn wreiddiol.³

Yr ail ddarn o ddiddordeb Arthuraidd yn y 'Mirabilia' yw'r un canlynol:

Y mae rhyfeddod arall yn y wlad a elwir Ergyng: ceir yno feddrod yn ymyl ffynnon a elwir Llygad Amr (*al. Anir, Amir*): mab ydoedd [sc. Amr] i Arthur filwr (*militis*), ac fe laddodd hwnnw [sc. Arthur] ef a'i gladdu yno. A daw pobl i fesur y beddrod, weithiau'n chwe throedfedd o hyd, weithiau'n naw, weithiau'n

¹ Ceir 'tri thrychant' am 'naw cant' yn BBC 18. 8-9 Ac vei vei paup *tri trychant* tauaud.

² Gall *Troyt* gynrychioli *Troed* neu *Troeth*, gyda'r ffurfiau amrywiol *Trwyd* a *Trwyth* gan fod *oe* yn ymgynwied ag *wy*, cf. *moe/mwy*. Y ffurf a geir yn *Kulhwch ac Olwen* yw *Twrch Trwyth*, ond fe geir hefyd y ffurf *Twrch Trwyd*: gw. CA 363, nodyn ar 1340.

³ Gw. hefyd G. d.g. 'cauall'.

ddeuddeg, ac weithiau'n bymtheg; ym mha fesur bynnag y mesurych di ef y tro hyn, nis cei di ef o'r un mesur yr ail dro, ac yr wyf i fy hun (*ego solus*) wedi'i brofi.

Yr un yw *Llygad Amr* (*Amir*) â *Gamber Head* yn Swydd Henffordd heddiw, cf. L.L. 174 usque ad *amyr* flumen, 200 super ripam *amyr*, 226 bet blain nant merthir. id est *amir*. Dyma stori onomastig arall ac ynddi fotif llên-gwerin digon cyffredin, sef y beddrod (neu ryw wrthrych arall) sy'n amrywio yn ei fesuriadau. Gyda'i gilydd dengys y ddwy stori uchod o'r 'Mirabilia' fod enw Arthur filwr yn adnabyddus yn y X ganr. yn neau-ddwyrain Cymru a'i fod yn tynnu ato'i hun ystoriau anarwrol yn y parthau hynny. Yn y naill stori gwelir troi enw carn yn enw ei gi (neu ei farch), ac yn y llall droi enw afon yn enw mab iddo. Y mae'n bosibl fod yr un proses o gysylltu ystoriau poblogaidd ag enw Arthur yn mynd ymlaen yn y X ganr. mewn rhanbarthau eraill yn ogystal, ond ni chadwyd unrhyw dystiolaeth o'r tu allan i Ffuellt ac Eryng.

Cymaint â hynyna am gofnodion AC a HB — testunau Lladin o darddiad Cymreig — ynglŷn â chwedl Arthur. Troer yn awr at y farddoniaeth gynnar Gymraeg. Dywedir yn aml fod y cyfeiriad cynharaf yn Gymraeg at Arthur yn mynd yn ôl i'r VI ganr. Ceir y cyfeiriad hwnnw yn y llin. canlynol yn 'Y Gododdin', CA 1240-2:

godolei o heit meirch e gayaf
gochore brein du ar uur
caer ceni bei ef Arthur.

O ddeall *gochore* fel gwall copïo am *gochone* (gw. CA 343) ymddengys mai ystyr y ddwy linell olaf yw 'Digonai (bwydai) frain du ar fur caer *er nad Arthur oedd ef* (sc. Gwawrddur)' — ffordd y bardd o ddweud fod Gwawrddur yn ymladdwr da. Y mae'r cyfeiriad yn rhagdybio fod Arthur yn batrwm o ddewrder pan gyfansoddwyd y llinell uchod, a byddai'n dda pe gellid dangos yn derfynol fod y pennill yn rhan o'r 'Gododdin' gwreiddiol, ac felly mor gynnar â diwedd y VI ganr. neu ddechrau'r VII. Ond ni ellir dangos hynny: gwyddys fod testun 'Y Gododdin', fel y'i cadwyd ef i ni mewn llsg. a gopiwyd c. 1250, yn cynnwys amryw benillion na allant fod yn rhan o'r gerdd wreiddiol ond sydd yn ychwanegiadau ymwithiol o gerddi arwrol diweddarach.¹ Sut bynnag, dengys orgraff y pennill y digwydd y llin. uchod ynddo, ei fod ar gael mewn ysgrifen tua'r IX ganr. Ni ellir dweud yn bendant ei fod yn gynharach na hynny. Y gorau y gellir ei ddweud am y cyfeiriad hwn at Arthur yw ei fod mor gynnar â'r IX ganr. ac y *gall* fod — os yw'n rhan o'r 'Gododdin' gwreiddiol — mor gynnar â thua'r flwyddyn 600. Beth bynnag fo ei ddyddiad, y mae'r cyfeiriad yn ateg i 'hanesyddoldeb' Arthur, oherwydd ni cheir cyfeiriadau yn y canu arwrol cynnar at ffigurau anhanesyddol neu chwedlonol. Perthyn y pennill, y mae'n sicr, i gylch canu'r hen Ogledd ac y mae yn hyn ryw ateg i'r gred mai pennaeth o'r rhanbarth hwnnw oedd Arthur.

Ceir enw Arthur ym 'Marwnad Cynddylan'. Diweddar iawn yw'r

¹ Gw. CA 1-1111.

testunau o'r gân hon a gadwyd inni¹ — perthynant i'r XVIII ganr. — ond dengys yr iaith, y crefftwaith, a'r cyfeiriadau daearyddol yn weddol glir fod y gân, er llawer o lygriadau testunol, yn un ddilys. Cyfnod Cynddylan ap Cyndrwyn, y gŵr a farwnedir yn y gerdd, yw hanner cyntaf y VII ganr. — ac yr oedd traddodiad iddo ymladd ym mrwydr Cogwy yn 642.² Yn y gân cyfeirir at Gynddylan a meibion eraill Cyndrwyn fel 'canawon *Arthur fras*' (CLIH 52, ll. 47), ffordd y bardd o ddweud eu bod cymaint eu gwrhydri â milwyr Arthur.

Y mae'r ddau gyfeiriad at Arthur a ddyfynnais uchod o'r farddoniaeth gynnar yn adlewyrchu'r traddodiad arwrol amdano fel arweinydd dewr, fel y gwna'r cyfeiriadau ym Mhennod 56 o HB, ac nid oes ynddynt arwydd o gysylltu â'i enw, fel y gwneir yn y 'Mirabilia', ystoriau poblogaidd anarwrol. Fe dâl inni sylwi ar nifer o gerddi cynnar eraill sy'n cynnwys tystiolaeth i ddatblygiad o'r fath. Yr anhawster mawr cyffredinol ynglŷn â'r cerddi hyn yw dyddiadau eu cyfansoddi, ond dengys eu horgraff, eu hiaith, eu hodlau, a'u crefftwaith eu bod yn gynharach nag 1100. Ac yn y cyfamser y mae gennym farn Syr Ifor Williams am ddyddiad rhai ohonynt.

Gwyddys erbyn hyn fod yn *Llyfr Taliesin* (c. 1275) rai cerddi y mae'n rhaid eu hystyried fel ymsonau neu ymddiddanion mewn dwy ffurf gynnar ar 'Chwedl Taliesin'.³ Cerdd o'r fath yw 'Preiddeu Annwfn' (BT 54-56), a mynegodd Syr Ifor Williams ei farn ei bod yn bendant yn gyn-Norman-aidd.⁴ Gellir dadlau mai ymson ydyw a leferid gan Daliesin yn un o'r ffurfiau cynnar ar y chwedl a gydiwyd wrth ei enw. Dywed y siaradwr mewn cyfres o benillion iddo fynd gydag Arthur yn ei long Prydwen i amryw geyrydd — Caer Siddi, Caer Feddwid, Caer Rigor (neu Rygor), Caer Goludd, Caer Fandwy a Chaer Ochren. Ar ddiwedd pob pennill ceir math o fyrdwn ac fe enwir Arthur a'i long Prydwen:

Tri lloneit *Prytwen* yd aetham ni idi.
nam seith ny dyrreith o Gaer Sidi. (BT 54, ll. 23-24).

A phan aetham ni gan *Arthur* traferth lechrit
namyn seith ny dyrreith o Gaer Vedwit.
(ib. 55, ll. 6-8).

Tri lloneit *Prytwen* yd aetham ni ar vor.
namyn seith ny dyrreith o Gaer Rigor.
(ib. 55, ll. 11-13).

tri lloneit *Prytwen* yd aeth gan *Arthur*
namyn seith ny dyrreith o Gaer Golud.
(ib. 55, ll. 17-18).

A phan aetham ni gan *Arthur* auyrdwl gofwy.
namyn seith ny dyrreith o Gaer Vandwy.
(ib. 55, ll. 23-25).

¹ Gw. B vi. 134-41, CLIH 50-52.

² Gw. B iii. 59-62, CLIH 48 (xi. 111a), tt. 18-24.

³ Gw. Syr Ifor Williams, *Chwedl Taliesin*.

⁴ Gw. Loomis, *Wales and The Arthurian Legend*, 131 yml.

Pan aetham ni gan *Arthur* afyrdwl gynhen.
namyn seith ny dyrreith o Gaer Ochren.

(ib. 56. ll. 2-4).

Cyfeirir hefyd at Gaer Wydr (na welsent 'wryd' neu ddewrder Arthur y tu hwnt iddi) ac at Gaer Bedryfan. O'r ymgyrch neu'r ymgyrchoedd gydag Arthur ni ddychwelodd ond saith, medd y gerdd, a'r saith yn cynnwys y siaradwr, y mae'n debyg. Ymddengys ei bod yn fwy na chyd-ddigwyddiad fod enwi Taliesin yn *Branwen Uerch Lyr*¹ fel un o'r saith gŵr a ddihangodd yn ôl i Ynys y Cedryn ar ôl y lladdfa fawr rhwng y Cymry a'r Gwyddyl yn Iwerddon. Gall ymgyrch Bendigeidfran i Iwerddon fod yn ffurf ddiweddarach 'resymoledig' ar y chwedl gynharach nas adroddir yn llawn yn 'Preiddeu Annwfn'. Y mae'n arwyddocaol fod y gerdd yn cynnwys cyfeiriadau at garcharu Gweir yng Nghaer Siddi 'trwy [h.y. yn ôl] ebostol [h.y. chwedl, cyfarwyddyd] Pwyll a Phryderi' — 'ebostol' y cadwyd un ffurf arni yn y gainc gyntaf a'r drydedd o'r *Mabinogi* — ac at Bair Pen Annwfn; ac fe gofir fod y gainc gyntaf o'r *Mabinogi* yn dweud i'r enw 'Pwyll Pendefig Dyfed' gael ei ddisodli gan 'Pwyll Pen Annwfn' oherwydd trigiant yr arwr yn Annwfn. Nid yw Arthur, fel y gwyddys, yn chware rhan yn *Pedeir Keinc y Mabinogi* fel y cyfryw, ond dengys 'Preiddeu Annwfn' fod o leiaf ran o'u deunydd sylfaenol wedi'i chysylltu rywfodd neu'i gilydd ag Arthur mewn ffurf gynnar ar 'Chwedl Taliesin'. Mewn geiriau eraill yr oedd y traddodiad arwrol am Arthur yn ymgymysgu â'r hen chwedloniaeth a llên-gwerin. Datblygiad pellach yn y cyfeiriad hwn, er na ellir ei olrhain yn fanwl, a barodd fod cymaint o draddodiadau o bob math, arwrol a chwedlonol, yn gysylltiedig â'i enw.

Dwy gerdd arall y mae'n ymddangos eu bod yn perthyn yn wreiddiol i 'Chwedl Taliesin' yw 'Kat Goddeu' (BT 23-29) a 'Chadeir Teyrnnon' (BT 34-35), ac ynddynt hwythau fe enwir Arthur:

derwydon doethur darogenwch y *Arthur* . . .
(BT 27, ll. 8-9).

treded dofyn doethur y vendigaw *Arthur*.
Arthur vendigat (*Llsg.* vendigan) ar gerd gyfaenat.
(ib. 34, ll. 21-23).

Cerdd debyg ei chefnidir—cyfeirir ynddi at Afagddu — yw 'Marwnat Uthyr Pen' (BT 71), lle y ceir enwi Arthur unwaith eto:

Neu vi a rannwys vy echlessur
nawuetran yg *gwrhyt Arthur*. (BT 71, ll. 15-16).

Yn *Llyfr Du Caerfyrddin* ceir deunydd sy'n ymgysylltu'n nes o lawer ag elfennau mewn ystorïau diweddarach am Arthur. Perthyn y llsg. i ddiwedd y XII ganr. neu i ddechrau'r XIII ganr., ond y mae llawer o'r cynnwys yn gynharach na hynny. Ymddengys mai ymson gan rywun yw'r englynion (tt. 71-73) sy'n sôn am Eraint fab Erbin, arwr y rhamant Arthuraidd

¹ PKM 44.

Geraint ac Enid a chymeriad sy'n cyfateb i Erec yng ngherdd Chrétien de Troyes, *Erec et Enide*. Mewn tri englyn, pob un yn dechrau gyda'r geiriau 'Rac Gereint', canmolir Geraint fel milwr dewr yn erbyn ei elynion, yna daw naw englyn, pob un yn dechrau gydag 'En Llogborth', wedyn chwech englyn yn dechrau bob un gyda 'Oet re rereint' (? darll. *reteint*), ac yn olaf yr englyn canlynol ar ei ben ei hun:

Ban aned Gereint oet agored
pirth new. rotei Crist a arched
prid mirein Prydein wogoned.

Â Dyfnaint y cysylltir y traddodiad arwrol am Eraint fab Erbin, ac ymddengys mai hen ffurf ar Langport ar lan afon Parret yng Ngwlad-yr-haf yw'r 'Llongborth' a enwir yn yr englynion. Dengys y cyfeiriad at Arthur yn yr englyn canlynol fod pa stori bynnag a gadwyd am Eraint wedi dod i gysylltiad â chwedl Arthur:

En Llogborth y gueleise y *Arthur*
guir deur kymynint a dur
ameraudur llywiaudir llawur.

Darn sydd yma o ffurf gynnar ar chwedl Geraint. Anodd ei amseru'n fanwl ond y mae'n sicr yn gynharach nag 1100, a gall fod mor gynnar â'r IX neu'r X ganr. Ynddo gwelwn gysylltu rhan o draddodiad arwrol Dyfnaint ag Arthur cyn dyddiau Sieffre o Fynwy a Chrétien de Troyes.

Cerdd arall yn *Llyfr Du Caerfyrddin* (94-96) y mae'n rhaid ymdrin â hi yw'r ymddiddan rhwng Arthur a'r porthor Glewlwyd Gafaelfawr. Ceglir oddi wrth yr ymddiddan fod Arthur a'i wŷr y tu allan i'r tŷ y mae Glewlwyd Gafaelfawr yn borthor arno:

[*Arthur*] Pa gur yv y porthaur?
[*Gl. Gaf.*] Gleuluid Gauaeluaur.
Pa gur ae gouin?
[*Arthur*] Arthur a Chei Guin.
[*Gl. Gaf.*] Pa imda genhid?
[*Arthur*] Guir gorev im bid.
[*Gl. Gaf.*] Ym ty ny doi
onys guaredi.
[*Arthur*] Mi ae guaredi
a thi ae gueli . . .

Wedyn y mae Arthur yn enwi ei ddilynwyr—Ceï, Mabon fab Modron, 'gwas Uthr Pendragon', Cysteint fab Banon, Gwyn Godyfrion, Manawydan ap Llŷr 'oedd dwys ei gusil', Mabon fab Mellet, Anwas Edeinawg, Llŵch Llawynnawg ac eraill. Canmolir campau Ceï yn anad neb, ac enwir Llacheu y sonnir amdano mewn man arall (gw. isod t. 248) fel mab i Arthur:

Kei Guin a *Llacheu*
digonint we kadev
kin gloes glas verev.

Fe gofir fod HB yn gosod seithfed frwydr Arthur '*in litore fluminis quod*

vocatur *Tribruit* (Llsg. H), . . . quod nos vocamus *Trath Treuroit* (Llsg. M). Saif *Tribruit* am *Tryfrwyd* a *Trath Treuroit* am *Traeth Tryfrwyd*. Yn y gerdd dan sylw ceir dau gyfeiriad at *Dryfrwyd* gan Arthur wrth adrodd campau ei wŷr:

Neus tuc *Manauid*
eis tull o *Trywruid* . . . (94, ll. 11).

Pop cant id cuitin
id cvitin pop cant
rac *Beduir Bedrydant*
ar traethev *Trywruid*
in amvin a Garvluid . . . (95, ll. 8-11).

Sonnir hefyd am ymladd â gwrach yn 'neuadd Afarnach', yr hyn sydd yn ein hatgoffa o Arthur yn ymosod ar y Widdon Orwen ferch y Widdon Orddu yn *Kulhwch ac Olwen*. Yn wir, y mae'r sôn am y porthor Glewlwyd Gafaelfawr, er na ddywedir mai porthor i Arthur ydyw, yn y rhestr o ddilyn-wyr Arthur a'r cyfeiriadau at eu cyneddfau a'u campau yn cydio'r gerdd hon yn glos wrth *Kulhwch ac Olwen*, chwedl sydd yn gynharach na Sieffre o Fynwy. Byddai'n dda petaem yn gwybod mwy am y chwedl sy'n gefndir i'r ymddiddan. Gellir cynnig un peth: os ystyr 'gwared' ar ddechrau'r ymddiddan yw 'datguddio, dangos', fel y tybiaf i, awgrymir fod dilyn-wyr Arthur (a hwyrach Arthur ei hun) wedi eu troi'n anweladwy am y tro; a chan fod Arthur yn addo eu datguddio, dichon mai un o'i 'gyneddfau' yn y chwedl gefndir oedd gallu gwneuthur dynion yn anweledig, yr union gynneddf sydd ar Fenw fab Teirgwaedd yn *Kulhwch ac Olwen* (WM 472) ac ar len Arthur ei hun yn *Breudwyd Ronabwy* (WM 212).

Yn y *Llyfr Du* hefyd ceir dau englyn o ddiddordeb Arthuraidd sy'n cyfeirio at feddau arwyr. Daw'r naill ohonynt mewn cyfres o englynion (BBC 99.11-110.8) mewn ymson lle y dywed rhywun, mewn chwedl y mae'n sicr, ei fod wedi bod yn y mannau hynny lle y lladdwyd hen arwyr fel Gwenddolau ap Ceidiaw,¹ Brân ab Iwerydd, Meurig ap Careian, a *Llacheu fab Arthur*:

Mi a wum lle llas *Llacheu*
mab Arthur uthir ig kerteu
ban ryre[e]int brein ar creu.

Dyma'r ail gyfeiriad at *Lacheu fab Arthur* — cawsom un eisoes yn 'Ymddiddan Arthur a Glewlwyd Gafaelfawr'. Y cyfan a awgrymir gan y ddau gyfeiriad yw ei fod yn filwr dewr a laddwyd mewn brwydr, a hynny, wrth gwrs, fel ffigur mewn chwedl ac nid fel person hanesyddol.

Daw'r ail englyn yn y gyfres 'Englynion y Beddau', a gall mai englyn unigol ydyw, BBC 67. 12-13:

Bet y March. bet y Guythur.
bet y Gugaun Cletyfrut.
Anoeth bid bet y Arthur.

¹ Yn AC (Llsg. B) dywedir i Weneddolau ap Ceidio syrthio ym mwydr Arfderydd (s.a. 573).

Y mae llinell olaf yr englyn yn anodd: o'i derbyn fel y mae gall olygu 'Rhyfeddod y byd [yw] bedd i Arthur'. Awgrymodd Syr Ifor Williams roi *braud* ('barn') i mewn ar ôl *anoeth* i gael yr ystyr 'Rhyfeddod hyd y Farn [h.y. am byth] [yw] bedd i Arthur'.¹ Fe wna hyn y llin. yn rhy hir oni ddileir yr y o flaen *Arthur*, a chan fod y yn digwydd o flaen yr enwau *March*, *Gwythur* a *Gwgawn* credaf y dylid ei chadw. Ac y mae'r englyn fel y mae yn englyn milwr rheolaidd gyda saith sillaf ym mhob llinell. Gan fod *anoethau*, ll. *anoeth*, yn air a ddefnyddir yn *Kulhwch ac Olwen* am y pethau anodd y mae'n rhaid i *Gulhwch* ddod o hyd iddynt cyn y gall gael *Olwen* yn wraig, y mae'n deg deall *anoeth* yn yr englyn fel 'peth anodd dod o hyd iddo', gyda *bid*, 'byd' yn cryfhau'r ystyr, rhyfeddod yn yr ystyr na wŷr neb ymhle y gellir ei ddarganfod. Credaf ei bod yn iawn casglu oddi wrth hyn fod Arthur wedi tynnu ato'i hun y motif llên-gwerin am yr arwr diflanedig nad yw wedi marw, fel y gwnaeth Hiriell o Wynedd² a ffigurau hanesyddol sicr fel Owain Lawgoch ac Owain Glyndŵr. Ac y mae cyfeiriadau eraill yn 'Englynion y Beddau' yn adlewyrchu bodolaeth ystorïau eraill am gymeriadau arwrol a chwedlonol a oedd yn troi'n ddilyn-wyr i Arthur. Yn yr englyn uchod y mae'n arwyddocaol fod Arthur yn cael ei enwi gyda *March* — y brenin yn stori *Trystan ac Esyllt* — *Gwythur* (? fab Greidawl), a *Gwgawn* Gleddefrudd, y tri ohonynt yn ffigurau yn y traddodiad arwrol, a barnu wrth y gweddillion briw ohono a gadwyd i ni.³ Cadarnheir y dyb am fodolaeth llu o ystorïau y ducpwyd mwy a mwy ohonynt i gysylltiad ag Arthur, gan dystiolaeth y 'Trioedd' cynharaf. Ar wahân i 'Drioedd y Meirch' (BBC 27-28), nad oes yr un cyfeiriad at Arthur ynddynt, y casgliad cynharaf o'r 'Trioedd Hanesyddol' yw'r un a geir yn Llsg. Peniarth 16.⁴ Perthyn y llsg. i'r XIII ganr., ond y mae'r Trioedd sydd ynddi bron yn gwbl rydd o ddylanwad y rhamantau Normanaidd ac yn cyfeirio at gorff o chwedlau sy'n hŷn o gryn dipyn nag oed y llsg. Mewn amryw ohonynt ceir enwi Arthur ei hun yn ogystal â chymeriadau eraill a gysylltir ag ef, e.e.

Tri deifnyawc e[nys] P[rydein]. *Gwalchmei m[ab] Gwyar*. *A Llacheu m[ab] Arthur*. a Riwallawn Walltbanhadlen.

Tri overveird e.P. *Arthur*. a Chatwallawn m. Catvan. a Rachawt eil Morgant.

Tri ruduoawc e.P. *Arthur*. a Run m. Beli. a Morgant Mwynvawr.

Tri gwrdeichyat e.P. *Drystan m. Talkwch*. a gedwis moch *March m. Meirch-yawn* hyt tra aeth y meichyat y erchi y *Essyllt* dyvot yw gynnadyl. Ac *Arthur* yn keissyaw un hwch onadunt ae y dwyll ae y dreis ac nys cawas . . .

O gyfuno tystiolaeth y farddoniaeth gynnar, eiddo'r 'Trioedd' ac eiddo'r 'Mirabilia' yn HB daw'n weddol glir fod cysylltu ag enw Arthur chwedlau gwerin a sagâu arwrol annibynnol wedi dechrau yng Nghymru o leiaf erbyn

¹ CLIH 127 ar *brawt*.

² Ar *Hiriell* gw. B. iii. 50-52.

³ Yn BT 48. 6-7 cyfeirir at feirch *Gwythur* ac *Arthur*: a *march Gwythur*. A *march Gwa[w]rdur* /. a *march Arthur* ehofyn rodi cur; ac yn BBC 27. 9-10 enwir 'Bucheslum seri. march *Gugaun cletyfrut*'.

⁴ Gw. y testun (gol. R. Bromwich) yn B. xii. 1-15.

y IX ganr., ymhell cyn dyddiau Sieffre o Fynwy a chyn bod dylanwad y rhamantau cyfandirol yn bosibl. Adroddid y chwedlau a'r sagâu hynny ar lafar, ac nid ysgrifennwyd ond ychydig iawn ohonynt. Yr unig chwedl Arthuraidd Gymraeg sydd yn bendant gynharach nag *Historia* Sieffre yw *Kulhwch ac Olwen*, ac ynddi hi gwelwn sut yr oedd cylch chwedl Arthur yn cyson ymledu. Yng ngweddillion saga Heledd ferch Cyndrwyn, y tybir ei chyfansoddi tuag 850, ceir cyfeiriad at Gulhwch fel arwr dewr, CLIH t. 34 (10):

Kyndylan, *Gulhwch* gynnifiat llew,
Bleid dilin disgynnyat,
Nyt atuer twrch tref y dat.

Nid oes modd gwybod a oedd y stori am Gulhwch eisoes wedi'i chysylltu ag Arthur pan luniwyd y saga am Heledd, ond erbyn cyfnod Nennius yr oedd stori annibynnol arall — stori hela'r Twrch Trwyth — wedi'i throï'n rhan o chwedl Arthur, fel y gwelwyd uchod. Yn *Kulhwch ac Olwen* gwelir cyfuno stori Culhwch, stori Goreu fab Custennin, stori hela'r Twrch Trwyth, stori Mabon fab Modron, stori'r 'Anifeiliaid Hynaf', a llu o storïau eraill nad oeddynt yn wreiddiol yn gysylltiedig nac â Chulhwch nac ag Arthur. Dengys y rhestr o filwyr llys Arthur — sydd yn ein hatgoffa o'r rhestr fyrrach o ddilynwyr Arthur yn y gerdd sy'n dechrau 'Pa gur yv y porthaur' yn y *Llyfr Du* — ddatblygiad yn y proses o ddwyn mwy a mwy o ffigurau a berthynai'n wreiddiol i hanes, i sagâu Cymraeg a Gwyddeleg, i chwedloniaeth a llên-gwerin, i droi o gwmpas Arthur. Troes *dux bellorum* Nennius, y 'tywysog cadau' a fu'n ymladd gyda brenhinoedd Prydain yn erbyn y Saeson, yn 'ben teyrnedd yr Ynys hon' a fu'n ymladd yn 'yr India Fawr' a'r 'India Fechan', yn yr Affrig, yng Nghorsica, ac yng Ngroeg. Y mae iddo ei wraig Gwenhwyfar, 'pen rhianedd yr Ynys hon', ei long Prydwen (fel yn 'Preiddeu Annwfn'), ei len (a elwir 'Gwen' yn *Breudwyt Ronabwy*), ei wayw Rhongomyniad (fel yn *Historia* Sieffre), ei darian Wyneb Gwrthucher, ei gleddyf Caledfwlch, ei gyllell Carnwennan, ei gi Cafall, ei gaseg Llamrei, ei neuadd Ehangwen a adeiladwyd gan ei saer, a'i esgob Bedwini i fendithio ei fwyd a'i ddiod. Ac y mae geiriau mawrfrydig Arthur wrth ei borthor yn cynnwys o leiaf hedyn urddas llysaidd yr ymherawdr Cristnogol a ddarlunnir yn *Historia* Sieffre a chymdeithas gwrtais y Ford Gron:

Ys dyhed a beth gadu dan wynt a glaw y kyfryw dyn a dywedy di . . .
Yd ym wyrda hyt tra yn dygyrcher. Yd yt uo mwyhaf y kyuarws a rothom
mwyuw yud yn gwrdaaeth ninheu ac an clot ac an hetmic. (WM 458.
19-30.)

A rhai o filwyr llys Arthur sydd yn helpu Culhwch yn ei ymchwil am Olwen — Cei, Bedwyr, Cynddylig Gyfarwydd — a oedd yn gystal arweinydd mewn gwlad ddiethr ag ydoedd yn ei wlad ei hun — Gwrhryr Gwalstod Ieithoedd — a fedrai bob iaith, gan gynnwys eiddo'r adar a'r anifeiliaid — Gwalchmei fab Gwyar — na ddaeth adref erioed heb y neges yr elai i'w

cheisio — a Menw fab Teirgwaedd, y swynwr a fwriai ledrith ar ddynion fel nas gwelai neb hwynt ac y gwelent hwy bawb. Y mae popeth gyda'i gilydd yn awgrymu fod chwedl Arthur wedi tyfu'n gylch eang o storïau ac Arthur ei hun fel ffigur canolog yn eu cysylltu â'i gilydd.

Nid oedd chwedl Arthur yn gyfyngedig i Gymru. Yn ôl Hermann de Tournai yn ei *De Miraculis S. Mariae Laudunensis* (1146)¹ dangoswyd yn 1113 i rai canonwyr o Laon, a oedd yn teithio o Exeter i Bodmin, 'gadair a ffwrn y brenin Arthur hwnnw sy'n enwog yn ôl chwedlau'r Brytaniaid (*Britannorum*)'. Ac yn ôl yr un awdur, bu ffrae yn Bodmin rhwng gweision un o'r canonwyr a Chernywiad a fynnai fod Arthur eto'n fyw, 'yn union', medd Hermann, 'fel y mae'r Llydawiaid (*Britones*) yn cweryla gyda'r Ffrancwyr ynghylch y brenin Arthur'. Yn 1113, felly, gwyddai Chernywiad yn ogystal â Chymry am ystorïau poblogaidd am Arthur a gysylltid â manau arbennig, a chredai Chernywiad a Llydawiaid nad oedd yr arwr wedi marw. Ac y mae'r llinell 'Anoeth bid bet y Arthur' yn yr englyn bedd hwnnw yn *Llyfr Du Caerfyrddin* (gw. uchod) yn dangos fod y gred olaf hon ymhlith y Cymry. Gwyddai William o Malmesbury am y gred ymhlith y Llydawiaid: yn ei *Gesta Regum* (1125) dywed fod 'ofer chwedlau'r Llydawiaid (*mugae Britonum*) hyd heddiw yn baldorddan' am Arthur, ac 'nad yw beddrod Arthur i'w weld yn unman, gyda'r canlyniad fod hen ganeuon (*antiquitas naeniarum*) yn sôn ei fod ef i ddod [yn ôl] eto'.²

Yr oedd Sieffre o Fynwy yn cydoesi â William o Malmesbury, ac y mae'n debygol ei fod yn ei adnabod. Ac yntau o dras Llydewig ac wedi'i fagu yng Nghymru gellir yn deg tybio y gwyddai Sieffre am rai o'r ystorïau a adroddid am Arthur gan Gymry, Llydawiaid a Chernywiad. Yn ei *Prophetia Merlini*, a gyfansoddwyd yn 1134-5 ac a gyhoeddwyd ar wahân cyn ei gynnwys yn yr *Historia* (1136), ceir Myrddin yn galw Arthur yn 'faedd Cernyw', yn darogan ei fuddugoliaethau, ac yn dweud y 'bydd ei ddiwedd yn amheus', y 'cenir ei glodydd ar wefusau pobloedd', ac y 'bydd ei weithredoedd yn fwyd i chwedleuwyr'. Y mae'n gasgliad cwbl resymol mai ystyr y cymal olaf yw fod gweithredoedd Arthur mewn chwedlau amdano yn 'fwyd i chwedleuwyr' pan oedd Sieffre'n cyfansoddi'r *Prophetia Merlini*, h.y. yr adroddid chwedlau llafar amdano gan ystorïwyr.³

Credaf fod y dystiolaeth a nodwyd uchod yn dangos, o leiaf mewn rhan, sut y tyfodd rhyw berson hanesyddol, efallai o'r hen Ogledd, o ddiwedd y V a dechrau'r VI ganr. yn ffigur arwrol (fel y gwnaeth Llywarch Hen, Urien a'i fab Owain a llawer ffigur hanesyddol arall o'r un cyfnod ac o'r un rhanbarth), a sut y bu i'r ffigur arwrol hwnnw — am ryw reswm na ellir byth

¹ Dyfynnir y Lladin gwreiddiol yn E. K. Chambers, *Arthur of Britain*, 249. Ar y darn gw. Loomis, op. cit. 180-2.

² Dyfynnir y Lladin gwreiddiol yn E. K. Chambers. op. cit. 249-50.

³ Bydd yn hwylus cyfeirio yma at 'Ymddiddan Arthur a'r Eryr', sef ymddiddan rhwng Arthur a'i nai Eliwlad yn rhith eryr: gw. B ii. 269-86. Amserir yr englynion gan Syr Ifor Williams c. 1150 (ibid. 286), ond nid oes olion dylanwad *Historia* Sieffre ar y portread o Arthur. Y mae Arthur yr Ymddiddan â'i lys yng Nghelliwig, yn 'benn kadoed kernyw' ac yn 'bendefig haelion' — fel yn *Kulhwch ac Olwen*. Cynnrych yr ystorïwyr brodorol yw'r englynion ac y mae'n debyg fod rhyw stori goll yn gefndir iddynt.

efallai ei esbonio'n fanwl — dynnu ato'i hun fwy a mwy o sagâu a chwedlau gwerin a oedd yn wreiddiol yn annibynnol arno. Gwelir uchafbwynt y datblygiad hwn cyn ymddangosiad *Historia Sieffre* — cyn belled ag yr â'r dystiolaeth ysgrifenedig — yn *Kulhwch ac Olwen*. Wrth fwrw golwg dros y dystiolaeth nid ymdriniais â 'Bucheddau'r Saint', a hynny o fwriad, am y rheswm mai ychydig iawn o ddadansoddi beirniadol a fu arnynt hwy hyd yn hyn.¹ Ymddengys, er hynny, fod eu tystiolaeth hwythau am fodolaeth chwedlau am Arthur, yn arbennig eiddo *Buchedd Cadog* (c. 1090) gan Lifris o Lancarfan, *Buchedd Carannog* (? c. 1100), *Buchedd Illtud* (? c. 1100) a *Buchedd Padarn* (c. 1120), os cedwir mewn cof y bwriad 'moesegol' a barodd eu cyfansoddi, yn ategu ac yn cadarnhau'r datblygiad a ddisgrifiwyd. Yn fy marn i, nid yw *Historia Sieffre* yn ddyledus iawn am ei ddeunydd i chwedlau llafar am Arthur, ac nid o lyfr Sieffre y brigodd y rhamantau Ffrangeg. Y mae'r *Historia* a'r rhamantau yn cynrychioli dau ris ymhellach, bob un ohonynt yn wahanol i'w gilydd, yn natblygiad y chwedlau am Arthur, ond nid rhan o'm bwriad i yw traethu ar y grisiau hynny.

THOMAS JONES

Aberystwyth